## YR ATODLEN

### Tanwyddau Awdurdodedig

**84.** ZIP Cracklelog Firelogs, ZIP Crackle-log Firelogs a ZIP Crackling Log Firelogs, a weithgynhyrchir gan Allspan BV, Macroweg 4, 5804 CL Venray, yr Iseldiroedd—

(a) a gyfansoddir o gwyr hydrin (sef tua 55% o'r cyfanswm pwysau), blawd llif pren caled (sef tua 42% o'r cyfanswm pwysau) a hadau clecian (sef tua 3.2% o'r cyfanswm pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses o drin â gwres ac allwthio;

(c) sydd tua 235 o filimetrau o hyd gyda diamedr o 80 o filimetrau, gyda rhigolau ar hyd yr wynebau;

(d) sy'n pwyso 1.1 cilogram ar gyfartaledd; ac

(e) nad yw mwy na 0.1% o gyfanswm eu pwysau yn sylffwr.